



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE

Cynnig Proffesiynol GwE 2019-2020

Mae cynnig proffesiynol GwE yn un cynhwysfawr ac eang sy'n cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i holl staff yr ysgol, o gymorthyddion dysgu sydd eisiau cymhwyster Cynorthwyyr Addysg Lefel Uwch, i Raglen Datblygu Darpar Arweinwyr, Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a chymhwyster CPCP ar gyfer darpar benaethiaid. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd Dysgu Proffesiynol amrywiol eraill sydd yn cynnwys, er enghraifft: Llythrennedd a Rhifedd yn y cynradd, pynciau craidd yn yr uwchradd, cynllunio'r cwricwlwm a llesiant.

[Cliciwch yma](#) i lawrlwytho copi.



Cwricwlwm i Gymru – Dweud eich Dweud

Mae'r 'Cwricwlwm drafft i Gymru 2022' bellach ar gael ichi fynd i'r afael ag o. Mae wedi'i gyhoeddi ar Hwb, y wefan sy'n ganolbwynt i addysgu a dysgu yng Nghymru. Gallwch roi adborth ar fframwaith y cwricwlwm ar-lein tan **Gorffennaf 19eg**. Gweler y cyfarwyddiadau isod ar sut i wneud hynny:

Defnyddiwch y linc yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022>

Cwricwlwm drafft i Gymru 2022

Wedi'i lunio gan yr athrawon ar gyfer y plant. Mae'r cwricwlwm newydd drafft bellach ar gael i bobl roi adborth arno. Dyma'ch cyfle i ymgyswngtu â'r cwricwlwm a gwneud cyfraniad ato.

Dechrau arni

Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu adborth gan unrhyw un am y canllawiau'r ydym wedi eu datblygu er mwyn gwneud y cwricwlwm newydd yn realiti.

Sut i ymateb

Meysydd dysgu a phrofiad

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Gwyddoniaeth a
- Mathemateg a
- Iechyd

Cliciwch i archwilio'r cwricwlwm newydd

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwychoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 <https://g6.gwegogledd.cymru>.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).


HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD	CYFRWNG
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Bioleg - GWYNEDD / MÔN	03/07/2019	Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - SIR Y FFLINT / WRECSAM	03/07/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - CONWY / DINBYCH	03/07/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Cemeg - GWYNEDD / MÔN	04/07/2019	Adeilad Trefnai, Safle'r Normal, Prifysgol Bangor	Dwyieithog

GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Bioleg - SIR Y FFLINT A WRECSAM	04/07/2019	Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug	Dwyieithog
GWYDDONIAETH UWCHRADD - Cyfarfod rhwydwaith Ffiseg - CONWY A DINBYCH	04/07/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno	Dwyieithog
Cynhadledd Haf ITM Dyfodol Byd-eang	12/07/2019	Venue Cymru, Llandudno	Saesneg

Rhaglenni Proffesiynol

RhDAG—Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol

Fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn, byddwn yn anfon y prospectws a ffurflen gais ar gyfer carfan(au) nesaf y **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG)**. Fodd bynnag, o dymor yr Hydref 2019, bydd y RhDAG yn Rhaglen Genedlaethol ar draws Cymru, a gyflwynir yn lleol. Mae'r pedwar consortiwm yn cydweithio ar hyn o bryd ar lunio'r rhaglen hon. Am ragor o wybodaeth ac i fynegi diddordeb, [cliciwch yma](#).



NODYN ATGOFFA



DYDDIAD CAU CEISIADAU CALU

COFIWCH FOD DYDDIAD CAU CEISIADAU CALU YR WYTHNOS HON:

1 O'R GLOCH • DYDD GWENER • 5 GORFFENNAF 2019



Dychweler i: [sylw Marian Williams]



GwE, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN



calu@gwegogledd.cymru



[01286] 679976

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16

Rydym yn falch o gyflwyno ein Rhaglen Datblygu Dysgu Ôl-16. Wedi'i hanelu at arweinwyr ôl-16 newydd, neu ddarpar athrawon, mae'n cynnig cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Mae'n rhan o'r strategaeth genedlaethol ar gyfer cynllunio olyniaeth. [Linc i'r rhaglen](#).



Dysgu Ôl-16

I gadw eich lle
cliciwch yma



Y Diweddaraf am Asesiadau Personol

Bydd adroddiadau dysgwyr ar gael cyn hir a fydd yn cynnwys y man cychwyn ar gyfer cynnydd yn yr Asesiad Personol Rhifedd (Gweithdrefnol), a hefyd sgôr safonedig ar sail oedran ar gyfer pob dysgwr.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Hyfforddiant Gwahaniaethu Mike Gershon

Wythnos diwethaf, cynhaliwyd Hyfforddiant Gwahaniaethu ar draws y rhanbarth gyda Mike Gershon. Mae'r sleidiau o'r hyfforddiant ar gael yn y Llyfrgell Adnoddau ar G6.



Cynadleddau a Chyfleoedd gan Erail

Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Mantell yr Arbenigwr – Noson Rwydweithio

HEDDIW, DYDD MAWRTH, 2 GORFFENNAF 2019 – YSGOL SEALAND

Yn anffodus mae'r digwyddiad hwn wedi ei ohirio tan dymor yr Hydref.



Y Cliciadur

E-bapur newydd i ddisgyblion CA2. Rhifyn newydd allan bob hanner tymor.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cliciadur ar gael ar [wefan Hwb](#).



Dewch i Ddathlu! Yn Llandudno

DYDD MERCHER, 17 GORFFENNAF 2019 – VENUE CYMRU

Bydd Dewch i ddathlu! Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn Venue Cymru, Llandudno yn gyfres o ddigwyddiadau rhad ac am ddim i athrawon, artistiaid, dysgwyr a rhanddeiliaid o Gymru a thu hwnt. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Hyfforddiant Delwedd Gorfforol

DYDD LLUN, 2 MEDI 2019 – YSGOL ABERCONWY

Mae Ysgol Aberconwy yn awyddus i hybu delwedd gorfforol gadarnhaol ymhlith myfyrwyr, ac wedi adnabod y byddai eu staff yn croesawu hyfforddiant yn y maes hwn. Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).



Swyddi ADY gyda Sir Ddinbych

[Swyddog Cefnogi Gweithredu ADY](#)

DYDDIAD CAU: 8 GORFFENNAF 2019

[Swyddog Cynhwysiant – Gweithredu ADY x 2](#)

DYDDIAD CAU: 8 GORFFENNAF 2019



Camau: Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar

Cynllun Dysgu Cymraeg penodol yw hwn ar gyfer y gweithlu Addysg a Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun yn cynnwys pum cwrs ar wahanol lefelau rhuglder. Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#). I ddatgan diddordeb, [cofrestrwch yma](#).

Newyddlen SSCE Cymru

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o newyddlen SSCE Cymru i'w gael ar eu gwefan. [Cliciwch yma](#).



Llwybrau Amgen i Addysgu yng Nghymru trwy'r Brifysgol Agored

Mae'n bosibl eich bod eisoes yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu datblygiad dau llwybr arall i addysgu a fydd yn dechrau yn 2020 – llwybr ar sail cyflogaeth a llwybr rhan amser. [Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Tiwtor Pwnc Gwyddoniaeth, TAR yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored am benodi Tiwtor Gwyddoniaeth i gefnogi'r rhaglen TAR. Deilydd y rôl fydd Arweinydd Gwyddoniaeth TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru, a bydd yn gyfrifol am addysgu ac asesu myfyrwyr. Byddwch yn cydweithio â darpar athrawon, partneriaid ysgol ac eraill er sicrhau ansawdd a chyflwyno'r rhaglen yng Nghymru drwy gyfrwng hyfforddiant o bell ar-lein. Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill ynglŷn â mesurau perfformiad interim Cyfnod Allweddol 4

Cliciwch isod am fanylion:

- [Trefniadau Perfformiad Ysgol Interim Cyfnod Allweddol 4: Mesurau a Dadansoddiadau](#)
- [Llythyr i gyd-fynd](#)



Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

[GwEGogledd.Cymru](#)

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanygrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

